Bwyd ar y Rhwyd

Gorffennaf 2010

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Croeso i Bwyd ar y Rhwyd

Yn y cylchlythyr hwn, rydym yn casglu ynghyd dipyn o'r newyddion a'r gwaith ymchwil diweddaraf yn y sector bwyd a diod yng Nghymru.

Newyddion

Bwyd *i* Gymru, Bwyd *o* Gymru 2010-2020
Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru glywed eich barn chi am strategaeth fwyd y maent yn gweithio arni i Gymru. Mae Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru yn mynegi gweledigaeth eang am le bwyd yng Nghymru, gyda'r nod o bennu cyfeiriad clir a fydd yn galluogi'r diwydiant bwyd yng Nghymru i dyfu mewn ffordd gynaliadwy a phroffidiol dros y deng mlynedd nesaf. Gobeithio y gallwch chi gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau y bydd y strategaeth derfynol yn dangos y ffordd orau i ni symud ymlaen.

Strategaeth Garddwriaeth
Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Garddwriaeth Cymru, a ddatblygwyd gan Grŵp Strategaeth Garddwriaeth y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth. Mae'n nodi ffyrdd penodol y gall cadwyn gyflenwi'r sector garddwriaeth gydweithio i ymateb i'r heriau a fydd yn wynebu'r diwydiant yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar y themâu allweddol isod:

- hyfforddiant;
- datblygu cynaliadwy;
- gwella ansawdd cynhyrchion;
- rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau yn y diwydiant;
- gwybodaeth am y farchnad; a
- meithrin gallu.

Bwyd Blasus gan Bobl Go Iawn
Ers y rhifyn diwethaf, lansiwyd gwefan newydd sbon gyda'r nod o ddwyn cynhyrchwyr bwyd a phobl sy'n gwerthfawrogi bwyd da at ei gilydd am y tro cyntaf. Bwriad gwefan Fforch i Fforc yw helpu pobl leol ac ymwelwyr i ganfod cynhyrchwyr bwyd a diod yn eu hardal. Mae'r wefan yn rhan o ymgyrch ehangach fforch-i-fforc, a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb

Ewropeaidd. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i brynu a mwynhau bwydydd a diodydd ffres yn uniongyrchol gan y cynhyrchydd trwy farchnadoedd ffermwyr, siopau fferm, cynlluniau bocs, wrth gât y fferm ac ar y we.

Mae'n cynnwys adran Ddigwyddiadau gynhwysfawr sy'n rhestru gwyliau bwyd ac yn sôn dipyn amdanynt, yn rhoi'r manylion diweddaraf am farchnadoedd ffermwyr yn cynnwys eu dyddiadau, ac yn rhoi map rhyngweithiol manwl. Yn yr adran Canfod Bwyd, ceir sôn am siopau fferm a chysylltiadau â gwefannau cynhyrchwyr sy'n gwerthu'n uniongyrchol trwy'r rhyngrwyd ac yn dosbarthu bwyd i'ch cartref. Un o'r adrannau mwyaf diddorol i bobl sy'n mwynhau bwyd da yw'r adran Astudiaethau Achos sy'n sôn am nifer fawr o gynhyrchwyr – o bobyddion, gwneuthurwyr seidr a ffermwyr cig dafad i bobl sy'n tyfu blodau bwytadwy.

Os ydych chi'n cynhyrchu bwyd, gallwch fewngofnodi i gael pob math o wybodaeth werthfawr. Cysylltwch â thîm forch-i-fforc heddiw i drefnu i gael astudiaeth achos o'ch busnes chi ar y wefan.
http://www.fork2fork.org.uk/?diablo.lang=cym

Neuadd Fwyd Newydd ar Faes Sioe Frenhinol Cymru
Cafodd Neuadd Fwyd ei hagor yn swyddogol yn Sioe Frenhinol Cymru gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones, ar ddydd Llun 19 Gorffennaf. Yr Uned Datblygu'r Farchnad fu'n rheoli'r Neuadd Fwyd ers 1999 a daeth yn un o brif atyniadau Sioe Frenhinol Cymru a'r Ffair Aeaf, gan gynnig ffenest siop' ardderchog ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru.

Eleni, roedd 56 o gwmnïau bwyd a diod yn dangos eu cynnyrch o dan yr un to o'i gymharu â 44 o gynhyrchwyr y llynedd. Mae yno stondinau unigol mwy o faint sy'n rhoi mwy o le i'r cynhyrchwyr arddangos eu nwyddau.

Cynllun Sicrwydd Newydd ar gyfer Siopau Fferm a Stondinwyr Marchnadoedd Ffermwyr
Mae GO a GOAL yn gynlluniau gwirio newydd gan FARMA ar gyfer Cynhyrchwyr a Siopau Fferm. Maent yn cael eu rhoi ar waith yn raddol ledled y DU ac maent yn agored i holl aelodau FARMA. Mae'r cynllun Genuine Own (GO) yn berthnasol i rai sy'n gwerthu'n uniongyrchol mewn marchnadoedd, trwy'r rhyngrwyd neu trwy siopau fferm, ac mae Genuine Own and Local (GOAL) yn berthnasol i siopau fferm.

Datblygwyd GO a GOAL gyda chymorth grant gan DEFRA. Eu nod yw cryfhau'r sector manwerthu gan ffermwyr a rhoi hwb i hyder defnyddwyr trwy gydnabod a diogelu stondinwyr sy'n gwerthu eu cynnyrch eu hunain a siopau fferm sy'n gwerthu bwydydd cartref, bwydydd lleol a bwydydd wedi'u tyfu gan gynhyrchwyr bach.

Os hoffech ragor o wybodaeth, gallwch e-bostio sue@farma.org.uk neu fynd i http://www.farma.org.uk.

Cynhadledd Gŵyl Fwyd y Fenni
Bydd Cynhadledd Gŵyl Fwyd y Fenni eleni o ddiddordeb arbennig i bawb sy'n ymwneud â gŵyl fwyd neu'r ffordd y gellir defnyddio bwyd i adeiladu economïau lleol.

Bydd "Gwyliau Bwyd: Y Genhedlaeth Nesaf" yn edrych o ddifrif ar sefyllfa gwyliau bwyd ar hyn o bryd a sut y gallant ddatblygu. Bydd y siaradwyr gwadd yn sôn am faterion fel: hybu twf gŵyl heb golli cysylltiad â'r cynhyrchwyr, y ffordd y gall bwyd lleol a digwyddiadau bwyd helpu i wneud tref yn llwyddiannus, ffyrdd o fesur llwyddiant gwyliau, ffyrdd newydd o feithrin cynulleidfa deyrngar a marchnata gwyliau trwy gymuned ar-lein.

Bydd y gweithdai'n cynnwys:

- Taith ryngweithiol o gwmpas y Fenni, i weld sut y gellir defnyddio bwyd i fywiogi'r dref;
- Sesiwn ar batrwm Dragon's Den gyda syniadau newydd am wyliau bwyd;
- Sesiwn ymarferol ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasu;
- Brandio ymarferol – sut i frandio gŵyl fwyd er mwyn apelio at gynulleidfa ehangach.

Cynhelir y Gynhadledd ar 17 Medi 2010 yng Nghanolfan y Priordy, y Fenni. Mae'r tocynnau'n costio £125 yr un, yn cynnwys cinio, derbyniad diodydd ar ôl y gynhadledd a thocyn deuddydd i grwydro'r ŵyl. Rhagor o fanylion: http://www.abergavennyfoodfestival.co.uk/conference_welcome.html

Cyfle i Ennill £100 – Cymerwch ran yn ein Harolwg o Gynhyrchwyr Bwyd a Diod
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o grant y Gwyliau Bwyd. Fel rhan o hyn, rydym yn cynnal arolwg ar-lein o gynhyrchwyr bwyd a diod ledled Cymru i gael ymateb pobl sy'n gweithio yn y sector ynghylch swyddogaeth ac effaith gwyliau bwyd yng Nghymru. Hoffem gael barn cynhyrchwyr sy'n mynd i wyliau bwyd a rhai nad ydynt yn mynd.

Bydd y ddolen isod yn mynd â chi i'r arolwg ar-lein. Dim ond rhyw ddeg munud y dylai gymryd i chi ei ateb. Mae'r arolwg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i ennill taleb gwerth £100 tuag at bryd o fwyd mewn bwyty o'ch dewis chi yng Nghymru.
http://www.miller-surveys.co.uk/TakeSurvey.aspx?SurveyID=mlLH86m

Mae croeso i chi ffonio neu e-bostio Kerry Lewis (Kerry@miller-research.co.uk / 01873 851 886) os hoffech ragor o wybodaeth.

Map Newydd o Brosiectau Garddio a Ffermio Cymunedol yng Nghymru
Datblygwyd map dwyieithog sy'n tynnu sylw at brosiectau garddio a ffermio cymunedol ledled Cymru. Lansiwyd y map yn swyddogol gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones AC, mewn achlysur a drefnwyd gan AC Plaid Cymru dros Ganol De Cymru, Leanne Wood.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd cynnydd aruthrol yn niddordeb pobl mewn creu llecynnau glas yng Nghymru, o ganlyniad i bryderon am faterion fel milltiroedd bwyd, newid yn yr hinsawdd a bwyta'n iach. Mae'r map yn ganllaw i lawer o'r prosiectau hyn sy'n agored i ymwelwyr. Yn ogystal, mae'r map yn nodi grwpiau cysylltiedig fel perllannoedd cymunedol, prosiectau tyfu gan ysgolion, rhandiroedd cymunedol a chynlluniau amaethyddol a gefnogir gan y gymuned.
http://www.farmgarden.org.uk/news/650-fcfcg-wales-map-launched

Galw am Greu Llai o Wastraff Bwyd
Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Jane Davidson wedi lansio strategaeth wastraff newydd i Gymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Maent yn dadlau nad yw'r trafodaethau ynghylch ffyrdd o hybu ailgylchu yn mynd yn ddigon pell ac y dylem ganolbwyntio yn lle hynny ar ffyrdd o gael pobl i ddefnyddio a thaflu llai.

Yng Nghymru, mae'r teulu cyffredin yn gwastraffu tua £50 y mis yn prynu bwyd sy'n cael ei luchio yn y diwedd ac, er ei bod yn anodd credu, mae 90 y cant o bopeth a brynwn yn mynd yn wastraff cyn pen chwe mis. Mae gwastraff bwyd organaidd a gwastraff pecynnu bwyd yn dod o dan y strategaeth a gelwir ar gwmnïau i chwarae eu rhan i leihau gwastraff ac i sicrhau bod modd ailgylchu defnyddiau gwastraff bob amser os oes modd.
http://wales.gov.uk/newsroom/environmentandcountryside/2010/100621tzw/?skip=1&lang=cy

Gwobrau Bwyd a Ffermio y BBC
Mae'r BBC yn derbyn enwebiadau ar hyn o bryd ar gyfer eu Gwobrau Bwyd a Ffermio. Mae'r trefnwyr yn awyddus i sicrhau bod cynhyrchwyr, ffermwyr a marchnadoedd yng Nghymru yn anfon eu henwebiadau erbyn y dyddiad cau, sef 15 Awst. Y llynedd, Danteithion Cig Mochyn Fferm Trealy enillodd wobr y Cynhyrchydd Bwyd Gorau. Cewch ragor o fanylion ar wefan y BBC: http://www.bbc.co.uk/radio4/features/ffa/2010/introduction/.

Rhaglenni Datblygu Masnach
Mae Uned Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad, Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i gynnal rhaglenni ar gyfer cwmnïau sy'n awyddus i ddatblygu sianeli i'w marchnadoedd, sef: Mynd am Dwf, Mentora, a Chlystyrau Sianel. Mae'r rhaglenni hyn yn addas ar gyfer busnesau bwyd a diod, bach a mawr, ac yn eu helpu i gyrraedd marchnadoedd newydd yn y DU. Os credwch eich bod chi mewn sefyllfa i gael cymorth fel hyn, gallwch gysylltu â'ch Rheolwr Bwyd-Amaeth rhanbarthol i drafod eich gofynion:

De Ddwyrain Cymru: enquiriesSEW@wales.gsi.gov.uk
De Orllewin Cymru: enquiriesSWW@wales.gsi.gov.uk
Canolbarth Cymru: enquiriesMW@wales.gsi.gov.uk
Gogledd Cymru: enquiriesNW@wales.gsi.gov.uk

Gwaith Ymchwil

Dysgwch am y tueddiadau a'r datblygiadau diweddaraf yn eich sector trwy ddarllen am y gwaith ymchwil diweddaraf. Dyma'n crynhoad ni o rai o'r adroddiadau diweddaraf.

Adnoddau ar y Rhyngrwyd

Cynnyrch llaeth yw pwnc yr adran Adnoddau ar y Rhyngrwyd yn y rhifyn hwn. Yma fe welwch ddolenni i wefannau sy'n rhoi gwybodaeth, newyddion ac ystadegau am y sector cynnyrch llaeth.

Digwyddiadau

Blas Cymreig yn The Taste of London
Bu cynhyrchwyr o Gymru ar ymweliad â Llundain rhwng Mehefin 17 a 20 i arddangos eu nwyddau ar stondin Cymru y Gwir Flas, Llywodraeth Cynulliad Cymru yng ngŵyl The Taste of London yn Regent's Park.

Ymhlith y cynhyrchwyr o Gymru roedd y Blaenafon Cheddar Company Ltd. Mae'r adeiladau'r cwmni ar Safle Treftadaeth Byd ac mae ei gaws Pwll Mawr yn cael ei aeddfedu o dan y ddaear yn y pwll glo yn Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru. Y llynedd, enillodd y cwmni wobr arian yn nosbarth Cyrchfan Twristiaeth Fwyd Gwobrau Bwyd a Diod Cymru y Gwir Flas. Ymhlith y cwmnïau eraill roedd Calon Wen (a Chaws Cenarth), Ancre Hill Estates, Toffoc, Cymdeithas Seidr a Pherai Cymru, Brownis Bwthyn Gŵyr, Cig Oen Dyffryn Elwy, The Pudding Compartment, a Llaeth y Llan.

Cafodd ymwelwyr â stondin Cymru y Gwir Flas gyfle i ddangos eu gwybodaeth am dwristiaeth a bwyd Cymreig mewn cwis rhyngweithiol. Cynhaliwyd y cwis yn awr ac yn y man trwy'r dydd ac roedd yn cynnwys profi eitemau heb eu gweld, a chwestiynau am luniau a phrops. Ar ddiwedd y pedwar diwrnod, cafodd enwau'r rhai â'r sgoriau uchaf bob dydd eu rhoi mewn het ac roedd yr enillydd yn cael aros am benwythnos yn un o westai Welsh Rarebits.

Arddangos mewn sioeau masnach yn 2010
Efallai y bydd cyfle i chi gymryd rhan mewn sioeau masnach fel hyn. Dyma restr o'r digwyddiadau yn y DU y byddwn yn mynd iddynt yn 2010. Os hoffech drafod rhai o'r cyfleoedd hyn, cysylltwch â Kate Gapper yn yr Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad.

Prynu neu werthu cynnyrch Cymru? Cofiwch am y marchnadoedd ffermwyr a'r gwyliau bwyd
Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu bwydydd neu ddiodydd lleol neu werthu'ch cynnyrch chi, efallai yr hoffech ddod i un o farchnadoedd neu wyliau bwyd Cymru yn 2010. Gallwch lawrlwytho rhestr o farchnadoedd ffermwyr a gwyliau bwyd.

Os hoffech i ni roi'ch enw ar y daenlen, cysylltwch ag Andrea Griffiths.

Y Cyhoeddiadau a'r Datganiadau i'r Wasg diweddaraf

Cofiwch, mae fersiynau pdf o'r rhan fwyaf o'n cyhoeddiadau ar gael yn adran Cyhoeddiadau gwefan y Gwir Flas. Cewch ddarllen datganiadau i'r wasg ar-lein hefyd, ar wefannau'r Gwir Flas a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

---

www.cymruygwirflas.co.uk | www.gwirflas.tv | www.cymru.gov.uk

---

Cynhyrchir Bwyd ar y Rhwyd gan Uned Datblygu'r Farchnad Llywodraeth Cynulliad Cymru. I gysylltu â ni, e-bostiwch RA-MDU@wales.gsi.gov.uk.

Arbedwch goeden ... peidiwch ag argraffu hwn os nad oes raid.